OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 142 (Cy. 67)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Codau Gwasanaethau Cymdeithasol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi 6 Ebrill 2016 fel y diwrnod y daw'r codau a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i rym.

Mae'r Gorchymyn yn gymwys i'r codau a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn.

Mae'r codau yn gosod gofynion ac yn cynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf 2014. Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a ddyroddwyd o dan adran 145(1) a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 142 (W. 67)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Social Services Codes (Appointed Day) (Wales) Order 2016

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order appoints 6 April 2016 as the day on which codes issued by the Welsh Ministers under section 145(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act") come into force.

The Order applies to the codes listed in the Schedule to the Order.

The codes impose requirements and include guidelines setting out aims, objectives and other matters in relation to the exercise of social services functions under the 2014 Act. Section 145(3) of the 2014 Act requires local authorities to act in accordance with any relevant requirements contained in a code issued under section 145(1) and to have regard to any relevant guidelines contained in it.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 142 (Cy. 67)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Codau Gwasanaethau Cymdeithasol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016

*Gwnaed* *8 Chwefror 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Codau Gwasanaethau Cymdeithasol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Y diwrnod penodedig i'r codau a bennir yn yr Atodlen ddod i rym yw 6 Ebrill 2016.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
8 Chwefror 2016

©ⓗHawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(**1**) 2014 dccc 4.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 142 (W. 67)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Social Services Codes (Appointed Day) (Wales) Order 2016

*Made* *8 February 2016*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 146(4)(b) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**), make the following Order.

### Title and application

**1.**—(1) The title of this Order is the Social Services Codes (Appointed Day) (Wales) Order 2016.

(2) This Order applies in relation to Wales.

### Appointed Day

**2.** The day appointed for the coming into force of the codes specified in the Schedule is 6 April 2016.

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
8 February 2016

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 2014 anaw 4

## YR ATODLEN Erthygl 2

### Y codau a ddyroddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016

| *Enw'r Cod* | *Y dyddiad y gosodwyd copi o'r cod drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *Y dyddiad y dyroddwyd y cod gan Weinidogion Cymru* |
|---|---|---|
| Y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol | 29 Mehefin 2015 | 5 Hydref 2015 |
| Y Cod Ymarfer a chanllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas â Rhan 2 (swyddogaethau cyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 3 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 |

## SCHEDULE Article 2

### Codes issued under section 145 of the 2014 Act and coming into force on 6 April 2016

| *Title of Code* | *Date copy of the draft code laid before the National Assembly for Wales* | *Date code issued by the Welsh Ministers* |
|---|---|---|
| The Code of Practice in relation to measuring social services performance | 29 June 2015 | 5 October 2015 |
| The Code of Practice and guidance on the exercise of social services functions and partnership arrangements in relation to Part 2 (general functions) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 | 3 November 2015 | 18 December 2015 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 3 (asesu anghenion unigolion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 2 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 | The Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 3 (assessing the needs of individuals) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 | 2 November 2015 | 18 December 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 3 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 | The Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 4 (direct payments and choice of accommodation and Part 5 (charging and financial assessment) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 | 3 November 2015 | 18 December 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (diwallu anghenion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 2 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 | The Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 4 (meeting needs) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 | 2 November 2015 | 18 December 2015 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 2 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 | The Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 6 (looked after and accommodated children) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 | 2 November 2015 | 18 December 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eiriolaeth o dan Ran 10 a rhannau cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 3 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 | The Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to advocacy under Part 10 and related parts of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 | 3 November 2015 | 18 December 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 11 (amrywiol a chyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 3 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 | The Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 11 (miscellaneous and general) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. | 3 November 2015 | 18 December 2015 |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2016 Rhif 142 (Cy. 67)

## 2016 No. 142 (W. 67)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# SOCIAL CARE, WALES

Gorchymyn Codau Gwasanaethau Cymdeithasol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016

The Social Services Codes (Appointed Day) (Wales) Order 2016

ISBN 978-0-348-11251-1

£4.25

W2572/02/16 ON